## SWYDD ANWEITHREDOL

| | |
|---|---|
| **Rôl:** | Cadeirydd y Bwrdd Cynghori (gwirfoddol) |
| **Sefydliad:** | Gwasg Prifysgol Cymru |
| **Ymrwymiad o ran amser:** | Cyfarfodydd chwarterol yn flynyddol, yn swyddfa Cofrestrfa'r Brifysgol yng Nghaerdydd<br>Cyfathrebu ad hoc gyda'r Bwrdd, Cyfarwyddwraig a thîm rheoli GPC |
| **Tymor 1** | Tair blynedd, adnewyddadwy |
| **Lleoliad:** | Caerdydd (telir treuliau teithio) |
| **Yn adrodd wrth:** | Cyfarwyddwraig Gwasg Prifysgol Cymru |

## PRIF BWRPAS Y SWYDD

Gwasg Prifysgol Cymru (GPC) yw gwasg genedlaethol Cymru. Wedi'i sefydlu ym 1922 gyda chenhadaeth i warchod a hyrwyddo diwylliant, hanes, llenyddiaeth a iaith Cymru, mae'r wasg yn cyhoeddi tua 50 o deitlau academaidd newydd bob blwyddyn ar draws sawl portffolio ym meysydd y Dyniaethau, Gwyddorau Cymdeithasol, Astudiaethau Cymru, a Chyfnodolion. Mae GPC yn dosbarthu ei chyhoeddiadau ar draws y byd er lledaenu ysgolheictod yn tarddu o bob cwr o Gymru a'r DU, Ewrop, Gogledd America, America Ladin, Asia, Awstralasia a'r Dwyrain Canol. Yn 2022, lansiodd GPC argraffnod newydd Calon, sy'n fraich fasnachol ar gyfer llyfrau ffeithiol y wasg. Mae Calon yn cyhoeddi straeon cyfareddol mewn ffrwd ryngwladol, sy'n cyfleu naws Gymreig unigryw.

Mae tîm o 12 yn gweithio fel staff i'r wasg, a gwasanaethir y sefydliad gan Fwrdd Cynghori sy'n cefnogi'r tîm rheoli wrth gyrchu tuag at nodau strategol a gweithredol. Mae'r Bwrdd Cynghori yn cynnwys arbenigwyr o'r diwydiant cyhoeddi, ag arbenigedd pob un yn adlewyrchu ar gyfraniadau amrywiol y wasg i Gymru a'r byd.

Nawr, mae GPC yn awyddus i benodi Cadeirydd newydd i'r Bwrdd Cynghori, yn dilyn ymddeoliad y Cadeirydd presennol. Y Cadeirydd sy'n gyfrifol am arwain a chadeirio cyfarfodydd chwarterol y Bwrdd Cynghori, a sicrhau fod y Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol i gynnal cenhadaeth, gweledigaeth ac amcanion strategol y wasg. Mae'r Cadeirydd hefyd yn gweithio'n agos gyda thîm rheoli'r wasg, gan gynnig arweiniad penodol i'r Gyfarwyddwraig.

Bydd gan y Cadeirydd brofiad a dealltwriaeth o fyrddau anweithredol; bydd wedi ymgymryd â swydd uwch ym maes academia, addysg neu fasnach; a bydd ganddi/ganddo'r ddawn i arwain trafodaethau strategol gydag awdurdod a deheuigrwydd.

## PRIF DDYLETSWYDDAU

- Cadeirio cyfarfodydd y Bwrdd gan sicrhau bod trafodaethau'n cadw eu ffocws, yn cadw at amser, ac yn annog cyfranogiad cynhyrchiol gan bob aelod
- Cyd-gysylltu â'r Gyfarwyddwraig i gytuno ar agenda a chynnwys cyfarfodydd
- Helpu i sicrhau bod ymdrechion y Bwrdd Cynghori yn unwedd â nodau strategol a gweithredol y sefydliad
- Cynnig cyngor ar lefel uchel, yn seiliedig ar amryw dueddiadau'r maes, heriau busnes, neu

gyfleoedd datblygu
- Cyfrannu at fframio'r cwestiynau strategol allweddol y bydd angen i reolwyr y wasg eu hystyried
- Cefnogi'r Gyfarwyddwraig wrth recriwtio, cynefino ac ymgysylltu ag aelodau newydd y Bwrdd Cynghori yn ôl yr angen
- Gosod disgwyliadau ar gyfer cyfranogiad, cyfrinachedd a chyfrannu
- Gweithredu fel cynghorydd i'r Gyfarwyddwraig a'r tîm rheoli
- Mentora aelodau y bwrdd ac uwch staff, lle bo hynny'n briodol
- Cyfoethogi brand Bwrdd Cynghori GPC trwy ddefnyddio rhwydweithiau ac enw da personol

**Ymrwymiad o ran amser**
Yn fras, saith awr ar gyfer pob cyfarfod chwarterol – gan gynnwys paratoi, cadeirio a darparu adborth. Cyfathrebu neu gyfarfodydd ysbeidiol trwy gydol y flwyddyn, yn ôl y galw, gyda'r Gyfarwyddwraig, rheolwyr ac aelodau eraill y Bwrdd.

## MANYLEB YR UNIGOLYN

Mae manyleb yr unigolyn yn canolbwyntio ar brofiad, gwybodaeth, sgiliau a chymwyseddau angenrheidiol ar gyfer ymgymryd â'r rôl yn effeithiol.

| Hanfodol | Dymunol |
|---|---|
| 1. Cynefindra â heriau strategol a wynebir gan weisg prifysgol<br>2. Synnwyr gwleidyddol craff<br>3. Profiad cryf ym maes cyhoeddi, busnes neu academia<br>4. Dealltwriaeth o, ac ymrwymiad at, genhadaeth GPC<br>5. Profiad cryf o gadeirio cyfarfodydd, gan annog trafodaeth agored a gonest, ac o weithredu'n ddiplomyddol<br>6. Profiad o weithio o fewn, neu gyda, sefydliad nid-er-elw<br>7. Rhwydweithio ardderchog a fydd o fudd i GPC<br>8. Dealltwriaeth o gyd-destun Cymru, ei diwylliant a/neu iaith, a phenderfyniad i eiriol dros hynny | 9. Dealltwriaeth o heriau'n deillio o ddibyniaeth ar ffynonellau cyllid allanol<br>10. Dealltwriaeth o redeg gwasg ddwyieithog<br>11. Dealltwriaeth o lywodraethiant prifysgol<br>12. Rhugldeb yn y Gymraeg a/neu gwybodaeth o ddiwylliant Cymru |

## MANYLION CYSWLLT

I ddatgan diddordeb, neu er mwyn cael rhagor o wybodaeth am y swydd, cysylltwch â:
Natalie Williams, Cyfarwyddwraig Gwasg Prifysgol Cymru, natalie.williams@gwasg.cymru.ac.uk

Erbyn **Dydd Gwener, 14 Tachwedd 2025**